# Cofnodion cryno - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3 Senedd a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 22 Mai 2025

Amser: 09.30 - 12.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15531

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Delyth Jewell AS<br>Julie Morgan AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Jason Prince, Urban Transport Group<br>Llyr ap Gareth, Federation of Small Businesses (FSB)<br>David Beer, Transport Focus<br>Rhian Bowen-Davies, Older People's Commissioner, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru<br>Barclay Davies, Defnyddwyr Bysiau Cymru<br>Matt Goggins, Gweithrediaeth Awdurdod Cyfun Maerol De Swydd Efrog<br>Nathan Owens, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Royal |

| | |
|---|---|
| | National Institute of Blind People Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Lukas Evans Santos (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Andrew Minnis (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AS.

## 2 Craffu Cyfnod 1 ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) - Sesiwn dystiolaeth gydag awdurdodau trafnidiaeth.

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Urban Transport Group a Gweithrediaeth Awdurdod Cyfun Maerol De Swydd Efrog

## 3 Craffu Cyfnod 1 ar Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) - Sesiwn dystiolaeth gyda sefydliadau buddiannau teithwyr

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Transport Focus a'r corff Defnyddwyr Bysiau Cymru.

## 4 Craffu Cyfnod 1 ar Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) - Sesiwn dystiolaeth gyda sefydliadau cymdeithas sifil

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall Cymru.

4.2 Gofynnodd Delyth Jewell AS i'r Aelodau ystyried honiadau diweddar a wnaed mewn perthynas â phwll glo brig Ffos-y-Fran. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

5.2 Cododd Delyth Jewell AS bryderon am fwynglawdd glo brig Ffos-y-Frân. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

### 5.1 Craffu blynyddol ar waith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

### 5.2 Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

### 5.3 Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

### 5.4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 5.5 Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

### 5.6 Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (Diwygio) 2025

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Trafod llythyr drafft at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â pholisïau Llywodraeth Cymru ar Newid Hinsawdd.

7.1 Cytunodd yr Aelodau ar y llythyr drafft.

## 8 Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

8.1 Bu'r Aelodau yn trafod yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) a chytunodd arni.